OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1784 (Cy. 126)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *1 Mai 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Medi 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 114(1) a (4) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac sydd wedi'u breinio bellach yn y Cynulliad(**2**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Medi 2001.

(2) Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â darparu cinio ysgol ar gyfer disgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau addysg lleol yng Nghymru.

### Grwpiau bwydydd

**2.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, rhennir bwydydd i'r pedwar grŵ p canlynol—

(A) **Ffrwythau a llysiau.** Mae'r rhain yn cynnwys ffrwythau a llysiau ar bob ffurf (yn ffres, ŵwedi'u rhewi, mewn tuniau, wedi'u sychu neu ar ffurf sudd).

(B) **Bwydydd startslyd.** Mae'r rhain yn cynnwys bara, siapatis, pasta, nwdls, reis, tatws, miled, blawd india corn ac iamau.

(C) **Cig, pysgod a ffynonellau eraill protein heblaw cynhyrchion llaeth.** Mae'r rhain yn cynnwys cig a physgod ar bob ffurf (yn ffres, wedi'u rhewi, mewn tuniau neu wedi'u sychu) gan gynnwys cynhyrchion cig neu bysgod, wyau, cnau, corbys a ffa, heblaw ffa gwyrdd.

(Ch) **Llaeth a bwydydd llaeth.** Mae'r rhain yn cynnwys llaeth, caws, iogwrt (gan gynnwys iogwrt wedi'i rewi ac iogwrt i'w yfed), fromage frais, ysgytlaeth a chwstard.

(2) Ni fydd marjarîn, menyn, brasterau eraill i'w taenu, olewau a brasterau coginio, dresin salad wedi'i seilio ar olew, mayonnaise, hufen salad, hufen, siocled, creision, bisgedi, teisennau, cacennau, pwdinau, hufen-iâ, sawsiau bras, grefi, jam, diodydd ysgafn siwgrllyd, melysion, siwgr a jeli yn perthyn i unrhyw un o'r grwpiau uchod o fwydydd .

(**1**) 1998 p.31. I gael ystyr "regulations" gweler adran 142(1).
(**2**) Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/627).

**Gofynion maeth plant sy'n mynychu ysgolion meithrin neu unedau meithrin mewn ysgolion cynradd**

**3.** Rhaid i fwyd o bob un o grwpiau A, B, C ac Ch fod ar gael bob dydd yn rhan o ginio ysgol disgyblion cofrestredig mewn ysgolion meithrin neu unedau meithrin mewn ysgolion cynradd.

**Gofynion maeth disgyblion o oedran ysgol gorfodol mewn ysgolion cynradd**

**4.**—(1) Rhaid cydymffurfio â'r gofynion a bennir ym mharagraff (2) wrth ddarparu cinio ysgol ar gyfer disgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd heblaw ysgolion arbennig.

(2) Rhaid trefnu bod bwyd o bob un o grwpiau A, B, C ac Ch ar gael bob dydd—

(a) o fewn grŵ p A, fel bod:

(i) ffrwythau ffres, ffrwythau tun mewn sudd neu salad ffrwythau ar gael bob dydd;

(ii) melysfwyd wedi'i seilio ar ffrwythau ar gael o leiaf ddwywaith mewn unrhyw wythnos;

(iii) math o lysieuyn (nad yw'n perthyn i grŵ p B) ar gael bob dydd;

(b) o fewn grŵ p B, fel nad yw braster neu olew yn cael ei ddefnyddio yn y broses goginio ar fwy na dau ddiwrnod mewn unrhyw wythnos. Rhaid i'r braster neu'r olew a ddefnyddir fod o'r math aml-annirlawn neu fono-annirlawn;

(c) o fewn grŵ p C, fel bod:

(i) pysgod ar gael ar un diwrnod o leiaf mewn unrhyw wythnos;

(ii) darnau cig ar gael ar ddau ddiwrnod o leiaf mewn unrhyw wythnos.

(3) At ddibenion cinio i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion cynradd, gall ffynonellau protein yng ngrŵ p C gynnwys cynhyrchion llaeth sy'n ffynonellau protein.

**Gofynion maeth disgyblion mewn ysgolion uwchradd**

**5.**—(1) Rhaid cydymffurfio â'r gofynion a bennir ym mharagraff (2) wrth ddarparu cinio ysgol ar gyfer disgyblion cofrestredig mewn ysgolion uwchradd heblaw ysgolion arbennig.

(2) Rhaid i ddau fath o fwyd o bob un o grwpiau A, B, C ac Ch fod ar gael bob dydd:

(a) o fewn grŵ p A, fel bod;

(i) ffrwythau ffres, ffrwythau tun mewn sudd neu salad ffrwythau ar gael bob dydd;

(ii) melysfwyd wedi'i seilio ar ffrwythau ar gael o leiaf ddwywaith mewn unrhyw wythnos;

(iii) dau fath o lysieuyn (nad ydynt yn perthyn i gŵ rp B) ar gael bob dydd;

(b) o fewn grŵ p B, fel bod bwyd sydd heb ei goginio mewn braster neu olew ar gael hefyd ar bob dydd y bydd bwyd sydd wedi'i goginio mewn braster neu olew ar gael. Rhaid i'r braster neu'r olew a ddefnyddir fod o'r math aml-annirlawn neu fono-annirlawn;

(c) o fewn grŵ p C, fel bod

(i) pysgod ar gael ar ddau ddiwrnod o leiaf mewn unrhyw wythnos;

(ii) darnau cig ar gael ar dri diwrnod o leiaf mewn unrhyw wythnos.

**Gofynion maeth disgyblion mewn ysgolion arbennig cymunedol a sefydledig**

**6.** Rhaid cydymffurfio â gofynion naill ai Rheoliad 4 neu Reoliad 5 wrth ddarparu cinio ysgol ar gyfer disgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig cymunedol neu sefydledig.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

1 Mai 2001

(**3**) 1998 p.38.

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno safonau maeth ar gyfer cinio ysgol disgyblion cofrestredig mewn ysgolion meithrin a gynhelir, ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol, sefydledig a gwirfoddol ac ysgolion arbennig cynradd ac uwchradd cymunedol a sefydledig.